# Datganiad Polisi Cyhoeddus

## Tai

**Ebrill 2025**

## Crynodeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cartref fforddiadwy o ansawdd da yn sylfaen i fywyd da, ac o ystyried y cysylltiad rhwng tai ac iechyd, rhaid ystyried tai fforddiadwy o ansawdd da fel ymyrraeth ataliol.[1]

I'r rhan fwyaf ohonom, pobl o bob oedran, mae 'cartref' yn lle diogel sy'n ein galluogi i ymlacio, i fyw'r bywyd rydyn ni ei eisiau, i fwynhau ein diddordebau, i gysylltu â theulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach a theimlo ein bod yn perthyn.[2]

Gall anghenion pobl newid wrth iddynt fynd yn hŷn, felly mae'n bwysig bod gan bobl hŷn fynediad at ystod o opsiynau yn ymwneud â thai a gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion. Rhaid i bobl allu byw bywydau diogel, annibynnol a heini mewn lleoliadau o'u dewis, ac efallai y bydd angen newid eu cartref neu leoliad er mwyn addasu i'w hanghenion newidiol. Mae pobl yn byw'n hirach, ac mae effaith hyn ar argaeledd cartrefi hygyrch a rheoli gwelliannau cartrefi yn fater allweddol.

Gall amodau tai gwael ac anhygyrch gael goblygiadau dwfn i'n poblogaeth sy'n heneiddio. Gall dyluniad, lleoliad a chyflwr cartref effeithio ar allu pobl hŷn i fyw bywydau iach ac annibynnol. Mae tai hygyrch yn hanfodol er mwyn galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, ac mae argaeledd rhwydweithiau cymorth cymunedol yn bwysig ar gyfer eu lles ac ansawdd bywyd.

Gall tai ymddeol arbenigol, gan gynnwys llety gwarchod a thai gofal ychwanegol, gynnig cymorth sylfaenol i lawer o bobl hŷn sy'n caniatáu iddynt fyw'n annibynnol am gyfnod hirach mewn amgylchedd diogel.  Mae angen buddsoddiad ychwanegol mewn tai arbenigol, gan ei fod yn gost-effeithiol dros y tymor hir oherwydd ei fod yn lleihau'r galw am gartrefi gofal preswyl ac ysbytai, a gall tai arbenigol ddarparu cymuned a manteision cysylltiedig i ansawdd bywyd. Mae angen adeiladu pob math o dai ymddeol mewn cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran, er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael mynediad llawn at drafnidiaeth gyhoeddus neu gymunedol a gwasanaethau lleol, gofal iechyd, siopau a swyddfa'r post a chyfleusterau sy'n cefnogi annibyniaeth a lles.

---

[1] Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio

[2] Our Future Homes: Housing that promotes wellbeing and community for an ageing population - GOV.UK Adroddiad Tasglu Tai Pobl Hŷn (2024), ar gyfer y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth y DU.

Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru drin pobl hŷn fel unigolion a chydnabod amrywiaeth o brofiadau pobl hŷn. Rhaid darparu ar gyfer anghenion pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig lluosog mewn polisïau sy'n ymwneud â thai a darparu gwasanaethau.

Mae angen i bobl hŷn gael mynediad at wybodaeth am opsiynau tai, cymhorthion ac addasiadau, a gwybodaeth ariannol gysylltiedig, i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch ble maen nhw am fyw yn ddiweddarach mewn bywyd. Dylid hyrwyddo cyngor o'r fath cyn bod pobl yn ymddeol er mwyn galluogi pobl i gynllunio, mwynhau mwy o ddewis, ac i hwyluso byw'n annibynnol.

Mae tai hygyrch yn hanfodol i bobl hŷn allu byw yn annibynnol am gyfnod hirach. Mae addasu cartrefi i'w gwneud yn addas ar gyfer anghenion a galluoedd y preswylydd hŷn yn lleihau anabledd a pherygl o ddamweiniau, yn cynyddu annibyniaeth, ac yn gwella iechyd a lles. Mae angen gwell effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau addasu cartrefi a ariennir yn gyhoeddus i bobl hŷn, a rhaid cwblhau'r addasiadau yn unol â Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru.

Rydym am weld pob cartref newydd yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i safonau Cartrefi Gydol Oes,[3] eu gwneud yn addas ar gyfer pobl o bob oedran, a fydd yn haws ac yn llai costus i'w haddasu os bydd anghenion pobl yn newid.

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru wedi arwain at welliannau mewn tai cymdeithasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi amserlenni a cherrig milltir clir i ymestyn Safon Ansawdd Tai Cymru i fathau eraill o dai a deiliadaeth, wedi eu hadolygiad newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2023.

Adroddodd arolygon cenedlaethol Age Cymru yn 2023 a 2024 fod bron i chwarter y bobl hŷn wedi nodi bod angen cwblhau gwaith atgyweirio yn eu tai. I'r rhai a oedd yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, roedd costau atgyweirio a chynnal a chadw yn allweddol, ac yn anfforddiadwy i nifer o bobl. Clywsom am dai mewn cyflwr gwael a phryderon ynghylch iechyd a diogelwch. Clywsom am atgyweiriadau a phroblemau gyda lleithder a llwydni yn y sector rhentu preifat a thai cymdeithasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru ailadrodd arolwg Amodau Tai Cymru er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr presennol tai yng Nghymru.

Mae pobl sy'n rhentu'n breifat yn nodi yn ein harolygon blynyddol bod costau rhent yn ddrud, yn enwedig i'r bobl hŷn hynny nad ydynt yn gallu ymddeol ac sy'n gorfod parhau i weithio er mwyn talu rhent. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i godi'r Lwfans Tai Lleol.

[3] Cartrefi Gydol Oes http://www.lifetimehomes.org.uk/

Mae nifer o bobl yn nodi bod diogelwch deiliadaeth hefyd yn broblem i bobl sy'n rhentu. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella diogelwch rhentwyr drwy gymryd camau i roi terfyn ar droi allan heb fai yng Nghymru.

Mae pobl hŷn yn fwyaf tebygol o ddioddef tlodi tanwydd; ffactor sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd ymhlith pobl hŷn yw eu bod yn tueddu i fyw mewn hen dai, nad ydynt yn effeithlon o ran ynni. Mae'r amcangyfrifon cyfredol o dlodi tanwydd yn parhau i gael eu modelu ar Arolwg Amodau Tai Cymru 2017-18,[4] a gafodd ei gwblhau cyn yr argyfwng ynni a chostau byw. Mae angen diweddaru amcangyfrifon am dlodi tanwydd yng Nghymru er mwyn cynnwys aelwydydd sydd angen cymorth.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb i sicrhau nad yw aelwydydd incwm isel a bregus yn cael eu heffeithio'n anghymesur yn ariannol gan ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol, er mwyn sicrhau proses bontio deg wrth symud tuag at sero net.

**Crynodeb o gynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi amserlenni a cherrig milltir clir i ymestyn Safon Ansawdd Tai Cymru i fathau eraill o dai a deiliadaeth, yn dilyn eu hadolygiad newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2023.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob cartref newydd yng Nghymru yn cael ei adeiladu i gyrraedd safonau Cartrefi Gydol Oes, gan eu gwneud yn addas i bobl o bob oedran, ac a fydd yn haws ac yn llai costus i'w haddasu os bydd anghenion pobl yn newid.
- Dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i godi'r Lwfans Tai Lleol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd mesurau pellach i wella diogelwch tenantiaid mewn llety rhent drwy ddiddymu troi allan heb fai.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ailadrodd arolwg Amodau Tai Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr presennol tai yng Nghymru.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi rhagor mewn tai ymddeol arbenigol i helpu i leihau'r galw am ofal preswyl wrth hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn
- Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod pob math o dai ymddeol yn cael eu hadeiladu mewn cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran, er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael mynediad llawn at drafnidiaeth gyhoeddus neu gymunedol, gofal iechyd a gwasanaethau a chyfleusterau lleol sy'n cefnogi annibyniaeth a lles.
- Mae angen i lywodraethau'r DU, Cymru a llywodraethau lleol ddarparu gwybodaeth am opsiynau tai, cymhorthion ac addasiadau, a gwybodaeth ariannol gysylltiedig, y dylid ei hyrwyddo cyn i bobl ymddeol er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw wneud cynlluniau, mwy o ddewis a hwyluso byw'n annibynnol.
- Rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig lluosog wrth greu polisïau sy’n gysylltiedig â thai a darparu gwasanaethau.

[4] Arolwg Cyflwr Tai Cymru

- Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau tai eraill ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau ychwanegol y gall pobl hŷn LHDTC+ eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau tai, a chefnogi eu hanghenion.
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod anghenion iaith yn cael eu hystyried yn effeithiol wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar opsiynau tai a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.
- Wrth arfer eu dyletswydd i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi, dylai awdurdodau lleol sicrhau mynediad da at wasanaethau cymunedol a gofal iechyd.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu amcangyfrifon wedi'u diweddaru ar dlodi tanwydd yng Nghymru, er mwyn galluogi adnabod aelwydydd sydd angen cymorth.
- Rhaid i fesurau datgarboneiddio gwella cartrefi gynnwys cyngor ar sut i ddefnyddio technoleg newydd yn effeithiol, e.e. pympiau gwres.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb i sicrhau nad yw aelwydydd incwm isel a bregus yn cael eu heffeithio'n anghymesur yn ariannol gan ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol, er mwyn sicrhau proses bontio deg wrth symud tuag at sero net.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Heol Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2025.